# Addasiadau tai

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Mehefin 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

**© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026**

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, mae'n rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac mae'n rhaid nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ailddefnyddio.

## Os byddwch angen unrhyw gymorth gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os byddwch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith amgen:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddir gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio/International Organization of Supreme Audit Institutions (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun Archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigurau allweddol | 6 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 15 |
| Atodiadau | 16 |
| Ynglŷn â'n gwaith | 17 |
| Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 19 |

# Ciplun Archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom edrych arno

1 Fe wnaethom edrych ar sut mae’r Cyngor yn cynllunio, yn cyflawni ac yn monitro addasiadau tai i helpu pobl aros yn eu cartrefi.

## Pam mae hyn yn bwysig

2 Newidiadau i gartref sy’n ei gwneud yn haws i bobl symud o gwmpas neu gyflawni tasgau beunyddiol yw addasiadau tai. Gallai addasiadau atal cwympau a derbyniadau i leoliadau gofal, gan arbed arian cyhoeddus. Mae enghreifftiau o addasiadau yn cynnwys:

- gosod rampiau neu ganllawiau cydio;
- ychwanegu lifft risiau neu lifft cadair olwyn;
- gosod cawod mynediad gwastad neu sedd cawod; a
- lledaenu drysau i roi mynediad i gadair olwyn.

3 Mae’r Cyngor yn asesu anghenion pobl i benderfynu a ydynt yn gymwys i gael cymorth. Pan fyddant, mae’n ddyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau, fel addasiadau cartref neu offer, i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i aros adref.

4 Yn ein hadroddiad yn 2018, canfuwyd system or-gymhelth gennym ledled Cymru a oedd yn atgyfnerthu yn hytrach na mynd i’r afael ag anghydraddoldeb yn y ddarpariaeth o addasiadau.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

5 Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn deall galw ac yn defnyddio ei adnoddau yn hyblyg yn y byrdymor i gyflawni addasiadau y mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth farn uchel ohonynt. Fodd bynnag, er bod amseroedd aros wedi lleihau, mae'n dal i gymryd amser maith i gael addasiad ac nid oes gan y Cyngor gynllun cyflawni i fynd i'r afael â hyn. Mae'r Cyngor yn cymryd rhai camau i ddeall sut mae'n cynnig gwerth am arian wrth gyflawni addasiadau tai ond nid yw'n asesu ar hyn o bryd a yw canlyniadau a fwriadwyd yn cael eu cyflawni.

## Yr hyn a argymhellir gennym

6 Rydym yn gwneud tri argymhelliad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i gyflawni addasiad i dŷ trwy ddatblygu cynllun cyflawni sy'n cyfateb adnoddau i alw yn y presennol a'r dyfodol;
- cynnwys Therapyddion Galwedigaethol yn y gwaith o ddatblygu dull y Cyngor o gyflawni addasiadau tai ac adolygu addasiadau a gwblhawyd; a
- gwella ymhellach ei ddull o asesu gwerth am arian.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol y Cyngor yn dynodi bod 39.9% o ymgeiswyr ar restr aros Homefinder yn 2024-25 angen rhyw fath o eiddo wedi’i addasu.

Yn 2024-25, cwblhaodd y Cyngor 832 o addasiadau i gartrefi pobl, ac ariannwyd 437 o’r rhain gan Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl (DFG). Mae’r Cyngor yn defnyddio cyllid yn hyblyg i atodi grantiau.

Cwblhaodd tîm Addasiadau ac Offer Cymunedol (ACE) y Cyngor 1,517 o asesiadau yn ystod 2024-25, a 660 o asesiadau symud a chario ychwanegol, gan leihau risg a chynorthwyo staff gofal i ddefnyddio offer yn effeithiol ac yn ddiogel i gadw pobl yn byw gartref.

I gynorthwyo pobl i gynnal eu hannibyniaeth am hwy gartref, darparodd y tîm ACE 5,975 o ddarnau o offer i drigolion Rhondda Cynon Taf a chasglu 6,726 o eitemau o offer i’w hailddefnyddio neu eu hailgylchu.

Gwariodd y Cyngor £7.464 miliwn ar addasiadau tai yn 2024-25, mae hyn yn cynnwys rheoli’r tîm ACE a’r storfa. £4.485 miliwn oedd cyllideb y DFG yn 2024-25. £11.125 miliwn yw cyllideb gyfalaf tair blynedd y DFG ar gyfer 2025-26 i 2027-28.

Yn 2024-2025, mae adborth gan gleientiaid a dderbyniodd DFG ac a gwblhaodd arolwg boddhad yn dangos:

- bod 98% yn gallu gwneud pethau nad oeddent yn gallu eu gwneud cynt, ac yn teimlo’n fwy hyderus ac annibynnol;
- roedd 99% yn teimlo ei bod yn haws i’w teulu / gofalwr eu helpu gyda’u hanghenion beunyddiol; ac
- roedd 98% yn teimlo bod ansawdd eu bywyd wedi gwella ar ôl derbyn yr addasiad.

# Ein canfyddiadau

## Mae'r Cyngor yn eglur ynghylch yr hyn y mae'n dymuno ei gyflawni ond nid oes ganddo gynllun eglur i gyflawni addasiadau tai

### Cynllun Strategol

7 Mae'r Cyngor yn cyflwyno ei ddull strategol o ymdrin ag addasiadau tai ar draws nifer o wahanol strategaethau gwasanaeth, ac mae Polisi Buddsoddi mewn Tai y Cyngor yn ddogfen allweddol. Mae'r polisi hwn yn canolbwyntio ar:

- hybu byw annibynnol trwy addasu eiddo, gan alluogi pobl ag anableddau i aros yn eu cartrefi eu hunain; a
- gwneud y defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael i gyflawni gwelliannau i dai i'r hyn sydd eu hangen fwyaf.

8 Nid yw amcanion yn y strategaethau hyn i gyd wedi'u cysylltu â chamau gweithredu eglur, ac nid oes unrhyw gynllun cyflawni ar gyfer addasiadau tai sy'n cefnogi'r rhain. Nid oes gan rai amcanion amserlenni cyflawni ac nid yw amcanion bob amser yn cyd-fynd â'i gilydd. Heb gynllun cyflawni eglur, nid yw'n eglur sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei amcanion ar gyfer addasiadau tai.

9 Mae'r Cyngor yn cynnwys partneriaid iechyd a thai yn y gwaith o ddatblygu ei ddull o ymdrin ag addasiadau tai. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod gan Therapyddion Galwedigaethol fewnbwn cyfyngedig. Mae hwn yn gyfle sy'n cael ei fethu i gymryd eu harbenigedd a'u gwybodaeth i ystyriaeth, yn enwedig o gofio eu swyddogaeth o asesu anghenion pobl.

### Deall galw

10 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o alw presennol am addasiadau tai yn seiliedig ar amrywiaeth eang o wybodaeth. Mae hyn yn cynnwys niferoedd y bobl sydd angen eiddo wedi'i addasu ac angen a amcanestynnir yn y dyfodol, yn seiliedig ar ddata demograffig a'i Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.

11 Mae'r Cyngor wedi nodi bod galw yn cynyddu yn seiliedig ar ddemograffeg sy'n newid a phoblogaeth pobl hŷn sy'n tyfu. Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi bod ei benderfyniad i gael gwared ar brofion modd ar gyfer gwaith canolig ei faint, yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru, a mewnlif o atgyfeiriadau yn dilyn pandemig Covid-19, bod atgyfeiriadau wedi cynyddu 74%.

12 Mae'r Cyngor yn casglu llawer o wybodaeth am alw am wasanaethau gan gynnwys am alw ymhlith plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw'n defnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau am sut y bydd yn defnyddio ei adnoddau i fodloni galw tymor hwy. Heb ragolygon priodol a chysylltu galw a chamau gweithredu arfaethedig, ceir risg efallai nad yw'r Cyngor yn gwneud popeth yn ei allu i ymdrin â galw a lleihau amseroedd aros.

## Mae gan y Cyngor broses eglur ar gyfer asesu a chyflawni addasiadau tai ac mae wedi lleihau amserlenni, ond mae pobl yn dal i aros yn rhy hir am eu haddasiadau

### Cyflawni

13 Mae gan y Cyngor wybodaeth eglur a hygyrch am addasiadau tai ar ei wefan. Mae'r wybodaeth hon yn trafod cymhwysedd, gwaith sydd ar gael, gweithdrefnau ymgeisio, a manylion cyllid, yn bennaf drwy'r DFG a chynlluniau mân gymhorthion. Mae mynediad at wasanaethau dros y ffôn, drwy e-bost, ar-lein a chan ddefnyddio gwaith papur wedi'i argraffu. Mae bod â gwybodaeth eglur a hygyrch yn helpu ymgeiswyr i ddeall y broses ar bob cam ac yn cynyddu'r siawns o ddod o hyd i'r cymorth iawn ar gyfer eu hanghenion.

14 Mae’r Cyngor yn deall anghenion defnyddwyr am addasiadau tai drwy broses asesu strwythuredig. Mae hyn yn bennaf drwy ymweliadau Therapyddion Galwedigaethol, sy’n ymgysylltu â thrigolion yn uniongyrchol. Nod craidd yr ymweliadau hyn yw deall sut mae cyflwr meddygol neu anabledd unigolyn yn effeithio ar ei allu i fyw’n annibynnol. O ganlyniad i ymgysylltu’n uniongyrchol ag ymgeiswyr, mae gan y Cyngor fwy o allu i ddiwallu anghenion yr ymgeisydd.

15 Mae’r Cyngor yn gofyn yn weithredol am adborth defnyddwyr gwasanaeth i lunio ei waith addasiadau tai ac yn defnyddio’r dysgu hwn i wella gwasanaethau. Er enghraifft, gwnaeth y Cyngor welliannau i’w ffurflenni cais ar gyfer pob deiliadaeth tai. Mae ffurflenni yn fwy eglur bellach ac wedi’u hysgrifennu mewn iaith blaen, gan eu gwneud yn fwy hygyrch i ymgeiswyr.

16 O fewn y Cyngor, mae timau yn gweithio’n dda gyda’i gilydd i asesu a chyflawni addasiadau tai. Mae’r tîm grantiau tai yn gweithio’n agos gyda staff cynllunio a rheolaeth adeiladu a chyda syrfewyr adeiladu yn y tîm grantiau. Mae’r Gwasanaeth Addasiadau ac Offer Cymunedol (ACE) yn canoli’r gwaith o asesu a darparu mân gymhorthion ac addasiadau mawr, gan gefnogi cyfathrebiad rhwng timau mewnol.

17 Mae gan y Cyngor weithdrefnau eglur ar waith i gefnogi’r gwaith o redeg y gwasanaeth yn feunyddiol. Mae hyn yn cynnwys canllawiau gweithredu Tîm ACE a ddiweddarwyd yn ddiweddar. Mae’r rhain yn cynnwys camau eglur ar gyfer atgyfeirio, neilltuo achosion, rheoli achosion a rheoli oediadau. Gall y gweithdrefnau hyn helpu i sicrhau cysondeb o ran dulliau.

18 Mae trigolion yn yr ardal yn aros am gyfartaledd o naw mis i gael addasiad DFG. Mae’r Cyngor wedi lleihau’r arhosiad hwn 91 diwrnod dros y tair blynedd diwethaf, ac mae’r arhosiad cyfartalog yn 284 diwrnod bellach. Mae’r Cyngor wedi awgrymu mai un peth sy’n cyfrannu at amseroedd aros maith yw bod ceisiadau grant gwerth uwch yn dod yn fwy cymhleth eu natur.

19 Mae'r Cyngor eisiau lleihau amseroedd aros ymhellach ond nid oes ganddo darged na chynllun cyflawni yn nodi sut y bydd yn gwneud hynny a sut y bydd yn dyrannu'r adnoddau sydd ei angen arno i wneud hyn. Felly, ceir perygl nad yw camau yn cael eu cymryd nac yn cael eu cyfrannu at waith cynllunio adnoddau. Mae'r diffyg cynllun gweithredu hefyd yn ei gwneud yn fwy anodd monitro cynnydd.

20 Gall gorfod aros amser maith am addasiad i dŷ gael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant rhywun. Gallai olygu nad ydynt yn gallu ymdopi â thasgau beunyddiol. Gallai hefyd gynyddu'r perygl o gwympo a baglu, gan arwain at yr angen am ofal ysbyty, sy'n rhoi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill.

### Rheoli adnoddau

21 Mae'r Cyngor yn deall ac wedi nodi ei adnoddau ariannol tymor canolig, ac anghenion staffio i gyflawni addasiadau tai. Mae'n defnyddio ei adnoddau ariannol yn hyblyg, gan gynnwys atodi grantiau, i gyflawni addasiadau tai a helpu i leihau amseroedd aros.

22 Mae'r Cyngor yn adolygu ei adnoddau ar gyfer addasiadau tai yn flynyddol yn rhan o'i broses cynllunio gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn hyfforddi aseswyr dibynadwy[1] i ragnodi offer a mân addasiadau. Os yw'n llwyddiannus, gallai'r dull hwn leihau llwyth gwaith y Therapyddion Galwedigaethol trwy ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar atgyfeiriadau mwy cymhleth. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi nodi ei anghenion adnoddau hirdymor i reoli unrhyw gynnydd i alw yn y dyfodol.

23 Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i adennill costau a chynhyrchu incwm. Er enghraifft:

- Mae gan y Cyngor reolaethau ar waith i adennill rhai o'i gostau os bydd defnyddiwr gwasanaeth yn symud eiddo. Os caiff yr eiddo ei werthu o fewn 10 mlynedd i gwblhau'r addasiad, mae'n rhaid i berchennog y cartref ad-dalu'r holl wobr grant, ac eithrio'r £5,000 cyntaf.

---

[1] Rhywun sy'n gweithredu ar ran sefydliadau lluosog a chyda'u caniatâd i gyflawni asesiad o anghenion iechyd a/neu ofal cymdeithasol mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol yw Asesydd Dibynadwy.

- Fe wnaeth y Cyngor gaffael y Contract Addasiadau ac Atgyweiriadau i Bobl Anabl (2024-2027) trwy broses dendro gystadleuol, gan sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn addasiadau cartref ar gyfraddau marchnad cystadleuol.

24 Mae'r Cyngor wedi cynyddu capasiti ei gronfa contractwyr o 20 i 30 i gyflawni addasiadau tai. Mae gan y Cyngor fframwaith ar wahân gyda Care and Repair[2] hefyd i gyflawni addasiadau graddfa fach. Gall bod â digon o gontractwyr i gyflawni addasiadau leihau'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau gwaith sy'n ei gwneud yn fwy tebygol y gall defnyddwyr gwasanaeth aros yn eu cartrefi.

25 Ceir enghreifftiau o'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau eraill, ond nid yw wedi archwilio'n llawn sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni addasiadau. Mae'r Cyngor yn ystyried mewnbwn a chyngor gan Therapyddion Galwedigaeth a thimau rhyddhau o'r ysbyty y GIG. Mae'r gymdeithas dai leol yn ariannu Therapydd Galwedigaethol sy'n rhan o'r tîm ACE. Mae cydweithredu yn bwysig gan y gallai fod cyfleoedd i ddatblygu capasiti a lleihau amseroedd aros, ac i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau presennol.

26 Nid yw systemau TGCh wedi'u hintegreiddio'n dda, ac mae'r Cyngor yn dibynnu ar rai prosesau â llaw i weinyddu ceisiadau am addasiadau tai. Mae hyn yn cynnwys cyfuniad o nodiadau asesu wedi'u hysgrifennu â llaw, taenlenni wedi'u storio'n lleol a nodiadau llais. Nid yw rhai o'r fformatau hyn yn cyd-fynd â System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), ac mae syrfewyr yn defnyddio gwahanol system yn gyfan gwbl. O ganlyniad, nid yw prosesau'r Cyngor mor effeithlon ag y gallent fod, a cheir perygl o staff yn ailadrodd ymdrechion.

---

[2] Sefydliad elusennol yng Nghymru yw Care & Repair Cymru, sydd wedi ymrwymo i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol mewn cartrefi diogel, cynnes, a hygyrch.

## Mae'r Cyngor yn monitro cost ac ansawdd addasiadau tai, ond nid yw'n gwybod pa un a yw'n cyflawni yn erbyn canlyniadau cynlluniau gofal personol fel y bwriadwyd

### Rheoli perfformiad

27 Mae'r gwasanaeth yn monitro amrywiaeth o wybodaeth yn rheolaidd i'w helpu i ddeall ei berfformiad. Mae hyn yn cynnwys:

- costau a gwariant;
- amseroedd aros;
- canran y bobl sy'n fodlon â'r addasiadau;
- ansawdd addasiadau tai; a
- pherfformiad contractwyr.

28 Mae'r Cyngor yn asesu, yn goruchwylio cyflawniad, ac yn gwirio ansawdd yr holl addasiadau mewn anheddau preifat. I denantiaid sy'n byw mewn eiddo cymdeithasau tai, mae gan y Cyngor gyfranogiad cyfyngedig, ond mae'n monitro addasiadau DFG ei gymdeithasau tai lleol. Mae hyn yn helpu i roi dealltwriaeth iddo o'r sefyllfa ar draws yr ardal.

29 Mae'r Cyngor yn monitro costau addasiadau tai yn rhan o'i broses monitro cyllidebau cyfalaf dri misol. Mae adroddiadau monitro yn cynnwys gwariant addasiadau tai yn erbyn costau amcanestynedig, gan dynnu sylw Pwyllgorau Cabinet a Chraffu at eithriadau. Mae gan aelodau'r cyfle felly i herio'r sefyllfa a nodi camau i fynd i'r afael â phroblemau.

30 Mae'r Cyngor yn cymryd rhai camau i ddeall sut mae'n cynnig gwerth am arian wrth gyflawni addasiadau tai. Ni wnaeth adolygiad Cyngor diweddar ganfod unrhyw achosion lle'r oedd defnyddwyr gwasanaeth ag addasiadau tai diweddar wedi symud i ofal preswyl. Mae hyn yn awgrymu bod yr addasiad wedi eu helpu i barhau i fyw'n annibynnol gartref. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif ei fod yn arbed £141,000 y flwyddyn mewn costau gofal, gan nad yw pobl angen cymorth mwy dwys gan wasanaethau mwyach.

31 Mae deall a chynnig tystiolaeth o osgoi costau yn helpu i ddangos sut y gall addasiadau tai gynnig gwerth da am arian o weithgarwch ataliol ac ymyrraeth gynnar y Cyngor.

32 Fodd bynnag, rydym wedi nodi rhai meysydd i'w gwella a fyddai'n cryfhau trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Er bod y Cyngor yn monitro amseroedd aros, nid yw wedi cyflwyno camau yn eglur i wella prydlondeb neu i werthuso a yw ei gamau yn gwneud gwahaniaeth. Mae hyn yn bwysig wrth asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd elfennau o werth am arian.

33 Mae'r Cyngor yn archwilio'r holl addasiadau tai sydd wedi'u cwblhau i wirio eu bod o'r ansawdd a'r safonau gwasanaeth disgwyliedig. Nid yw'r ymweliadau cwblhau yn cynnwys Therapyddion Galwedigaethol fel mater o drefn. Gallai hyn fod yn arbennig o gynorthwyol ar gyfer achosion mwy cymhleth gan y byddent mewn sefyllfa dda i asesu a yw'r addasiad yn helpu'r unigolyn fel y bwriadwyd.

**Boddhad defnyddwyr**

34 Mae'r Cyngor yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth am eu safbwyntiau ar yr addasiad ar adeg ei gwblhau. Mae boddhad defnyddwyr gwasanaeth ag addasiadau tai yn uchel, â 98% o ymgeiswyr yn dweud eu bod yn gallu gwneud pethau na allent eu gwneud cynt a'u bod yn teimlo'n fwy hyderus ac annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn asesu a yw'r addasiad wedi cyflawni canlyniadau gofal a chymorth personol yn unol â'r cynllun gofal. Mae hyn yn golygu efallai nad yw'r Cyngor yn deall yn llawn a yw'r addasiad tai wedi cynnig gwerth am arian.

# Argymhellion

**A1 Cyflawni a lleihau amseroedd aros**

Dylai'r Cyngor ddatblygu cynllun cyflawni yn nodi sut y bydd yn rheoli galw yn y presennol a'r dyfodol ac yn lleihau amseroedd aros ymhellach, gan nodi'r adnoddau a'r systemau TG sydd eu hangen arno i wneud hyn. Dylai hyn gynnwys cyfres briodol o fesurau i fonitro ac adrodd ar brydlondeb, cost, ansawdd a gwerth am arian **(paragraffau 8, 12, 19, 26 a 32).**

**A2 Cynnwys Therapyddion Galwedigaethol**

Dylai'r Cyngor gynnwys Therapyddion Galwedigaethol yn y gwaith o ddatblygu ei ddull polisi o ymdrin ag addasiadau tai, gan fanteisio ar eu harbenigedd yn asesu anghenion pobl. Mewn achosion mwy cymhleth, dylai'r Cyngor hefyd ystyried gofyn i Therapyddion Galwedigaethol adolygu addasiadau a gwblhawyd i wirio ansawdd ac i gadarnhau bod yr addasiadau wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd **(paragraffau 9 a 33).**

**A3 Asesu gwerth am arian**

Dylai'r Cyngor gymryd camau pellach i benderfynu a yw'n sicrhau gwerth am arian drwy ei addasiadau tai, gan gynnwys deall a yw amcanion cynlluniau gofal a chymorth personol gwreiddiol wedi cael eu bodloni. Byddai hyn hefyd yn helpu'r Cyngor i gryfhau ei ddealltwriaeth a dangos effaith ataliol y gwasanaeth ymhellach **(paragraff 34).**

# Atodiadau

# Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Mae'r archwiliad yn ystyried pa un a yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer cymorth addasiadau tai yn cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i aros gartref. Mae hyn yn cynnwys adolygu dull, cyflawniad a threfniadau monitro'r Cyngor.

Nid oedd yr archwiliad yn cynnwys cyfweliadau â rhanddeiliaid sy'n rhan o gyflawni addasiadau tai fel byrddau iechyd lleol, contractwyr, a chymdeithasau tai. Ni wnaethom gysylltu chwaith â defnyddwyr gwasanaeth i gael eu hadborth ar y gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt.

### Cwestiynau

Mae'r archwiliad yn defnyddio'r cwestiynau lefel uchel canlynol:

- A oes gan y Cyngor ddull cytbwys ac eglur o ymdrin ag addasiadau tai sy'n cynorthwyo pobl i aros gartref?
- A yw'r Cyngor yn darparu ei ddull o ymdrin ag addasiadau tai i gynorthwyo pobl i aros gartref?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i fonitro cynnydd ac effaith addasiadau tai i gynorthwyo pobl i aros gartref?

### Meini prawf

Fe wnaethom ystyried ein harchwiliad blaenorol o 2018 a wnaeth helpu i ddatblygu'r meini prawf archwilio. Cawsom drafodaethau gyda chynghorau hefyd i ddeall Addasiadau Tai ymhellach.

# Dulliau

Fe wnaethom adolygu dogfennau a data yn ymwneud â'r broses addasiadau tai. Fe wnaethom gyfweld â swyddogion allweddol ac aelodau etholedig sy'n ymwneud â'r broses addasiadau tai.

# Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Addasiadau** | Caiff addasiadau eu categoreiddio yn Fân Gymhorthion fel canllawiau cydio a thapiau lifer ac Addasiadau Mawr fel cawodydd mynediad gwastad, lifftiau grisiau, rampiau, lledaenu drysau, neu estyniadau i adeiladau. Mae gwasanaethau arbenigol fel Care and Repair Cwm Taf yn darparu ymateb cyflym ar gyfer gwaith llai. |
| **Egwyddor datblygu cynaliadwy** | Diffinnir yr egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd ‘sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.’ |
| **Cynllun gofal a chymorth** | Dogfen wedi’i phersonoli sy’n cael eu llunio gan y Cyngor o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw cynllun gofal a chymorth, yn amlinellu sut y bydd anghenion a aseswyd unigolyn yn cael eu diwallu i gyflawni canlyniadau personol. |
| **Asesiad o anghenion** | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gorchymyn bod gan unrhyw un a allai fod angen gofal neu gymorth hawl i asesiad o anghenion. Bwriedir i’r broses hon nodi’r hyn sy’n bwysig i chi a pha gymorth gallai fod ei angen arnoch i gynnal eich annibyniaeth a’ch llesiant |

| | |
|---|---|
| **DFG** | Gweinyddir Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl (DFGs) gan adran dai eich cyngor lleol fel rheol. Maent yn ddibynnol ar brawf modd oni bai eich bod yn gwneud cais ar ran plentyn dan 18 oed, felly efallai y bydd angen i chi dalu tuag at gost y gwaith, yn seiliedig ar eich incwm, incwm eich partner (os yw'n berthnasol), ac unrhyw arbedion sydd gennych dros £6,000. Gall y Grant ddarparu hyd at £36,000 o gyllid. |
| **Safonau gwasanaeth** | Nod safonau gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Addasiadau Tai a gyhoeddwyd yn 2019 yw 'sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn darparu addasiadau i dai mewn modd mwy cyson, a dylent roi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth am lefel y gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl pan fyddant yn gwneud cais am gymorth ar ffurf addasiad.' |
| **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002** | Gall awdurdodau lleol hefyd ddefnyddio eu cyllid eu hunain ar gyfer gwaith addasu cartrefi. O dan Orchymyn 2002, gall awdurdodau lleol gyflwyno grantiau neu fenthyciadau a gallant bennu eu hamodau neu eu cyfyngiadau ariannol eu hunain. Gellid defnyddio'r rhain i atodi DFG, neu yn hytrach na DFG weithiau. |
| **Gwerth am Arian** | Mae gwerth am arian lleol yn ymwneud â pha un a yw arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni canlyniadau a fwriadwyd am y pris gorau. Cyfeirir at hyn weithiau hefyd fel 'cost-effeithiolrwydd'. Mae gwerth am arian yn cael ei gysylltu'n gyffredin â darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Rydym wedi crynhoi'r rhain fel:<br>• Darbodaeth – Cael y fargen iawn – sicrhau'r mewnbynnau angenrheidiol, i helpu i gyflawni canlyniadau a fwriadwyd, am y gost isaf posibl.<br>• Effeithlonrwydd – Gwneud pethau'n iawn – manteisio i'r eithaf ar y mewnbynnau i gynhyrchu allbynnau y bwriedir iddynt gyflawni canlyniadau a fwriadwyd. |

- Effeithiolrwydd – Cael y canlyniadau iawn – sicrhau’r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer y byrdymor a’r tymor hwy.

Mae gan gynghorau ddyletswyddau cyfreithiol yn ymwneud â gwerth am arian. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ddyletswydd ar gynghorau i adolygu i ba raddau y maent yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gynorthwyo, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân â'r swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English